



Gofynion ar gyfer Addasu Aseidiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol (TGAU, TAG a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru) yn 2021



AWST 2020

DOGFEN REOLEIDDIO

Cynnwys

1	Cyflwyniad	4
2	Cefndir	6
3	Egwyddorion i'w cymhwyso.....	8
	Yr Egwyddorion	8
4	Gofynion mewn perthynas ag Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau GQ yn 2021	10
	Gofynion cyffredinol mewn perthynas ag Addasiadau.....	10
	Ystyriaethau Cydraddoldeb.....	10
	Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau TGAU.....	11
	Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau TAG.....	11
	Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.....	12

Hanes y fersiwn

Cyhoeddwyd Fersiwn 1 ein Gofynion ar gyfer Addasu Aseidiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol (TGAU, TAG a Thystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru) yn 2021 ar 15 Gorffennaf 2020. Diweddarwyd y fersiwn hon ar 6 Awst 2020 i gynnwys ein gofynion ar gyfer Addasu aseidiadau ar gyfer cymwysterau TAG a Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn [Saesneg](#).

Croesewir adborth ar y ddogfen hon ar unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau at polisi@cymwysteraucymru.org

1 Cyflwyniad

Ar 18 Mawrth 2020, er mwyn helpu i frwydro yn erbyn lledaeniad coronafirws (COVID-19) cyhoeddodd Gweinidog Addysg Cymru y byddai ysgolion yn cau¹ ac y byddai cyfres arholiadau haf 2020 yn cael eu canslo².

Cyhoeddwyd ein penderfyniadau³ ynghylch y trefniadau ar gyfer cyfres arholiadau haf 2020 ar 29 Mehefin 2020.

Er bod penderfyniadau y bu'n rhaid i ni eu gwneud am arholiadau yr haf hwn yn ymwneud â chymwysterau yr oedd dysgwyr blwyddyn 11 a blwyddyn 13 yn eu sefyll, wrth i ysgolion a cholegau ddychwelyd a dechrau cynllunio ar gyfer mis Medi, rydym yn gwybod bod angen eglurder ynghylch cymwysterau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf.

Rydym yn gwybod bod dysgwyr y blynyddoedd 10 a 12 cyfredol eisoes wedi colli tua 4 mis o amser yn yr ystafell ddosbarth yn 2020, ac mae'n ymddangos yn debygol y bydd aflonyddu ar addysgu a dysgu yn parhau y tu hwnt i fis Medi - p'un ai trwy gyfyngiadau ar gapasiti'r ysgol o ganlyniad i sicrhau pellter cymdeithasol neu o ganlyniad i ymyriadau eraill i fynd i'r afael ag achosion pellach o Covid-19.

Rydym hefyd yn gwybod bod dysgwyr ym mlwyddyn 10 a blwyddyn 12 yn teimlo'n bryderus am eu cyrsiau TGAU a Safon Uwch a sut y byddant yn cwblhau eu rhaglenni astudio i gyflawni eu potensial llawn yn haf 2021. Yn ddealladwy, mae athrawon a darlithwyr yn rhannu'r pryderon hyn ac yn dymuno gwneud eu gorau i'w dysgwyr.

Ein nod wrth gynnig newidiadau i drefniadau asesu ar gyfer dysgwyr sy'n sefyll eu harholiadau yn haf 2021 yw cefnogi dysgwyr sydd wedi colli rhywfaint o amser addysgu wyneb yn wyneb a helpu canolfannau i reoli unrhyw fesurau diogelwch iechyd cyhoeddus fydd yn parhau, wrth sicrhau bod y cymwysterau'n parhau'n ddilys ac yn ystyrlon.

Mae ymdrin â llawer o'r risgiau sy'n effeithio ar gymwysterau ac asesiadau y tu allan i'n cwmpas ni fel y rheoleiddiwr annibynnol. Rydym yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid, gan gynnwys CBAC, rheoleiddwyr cymwysterau eraill a Llywodraeth Cymru i ddarparu dull cydgysylltiedig ar draws y

¹ Llywodraeth Cymru (2020) Datganiad gan y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams ar gau ysgolion yng Nghymru - <https://www.qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/datganiadau-rhanddeiliaid/datganiad-gan-y-gweinidog-addysg-kirsty-williams-ar-gau-ysgolion-yng-nghymru---18-mawrth-2020/>

² Llywodraeth Cymru (2020) Datganiad ysgrifenedig ar arholiadau haf 2020 - <https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-datganiad-ar-gyfres-arholiadau-haf>

³ <https://qualificationswales.org/cymraeg/coronafeirws---covid-19/penderfyniadau-haf-2020/>

system o gynnal safonau, lleihau baich a lliniaru risg i ddysgwyr o dan anfantais. Bydd hyn yn parhau trwy gydol y broses o gyflwyno a dyfarnu'r asesiadau a'r cymwysterau hyn yn 2021.

Ar ôl ystyried y safbwyntiau polisi a lywiodd ein trefniadau ar gyfer gwanwyn a haf 2020, yr aflonyddwch sy'n debygol o barhau ar gyfer addysgu a dysgu, ein prif nodau ac adborth gan y sector, byddwn yn strwythuro ein dull rheoleiddio o amgylch set o egwyddorion trosfwaol y dylai CBAC eu defnyddio wrth addasu asesiadau ar gyfer 2021, a gofynion manylach y mae'n rhaid i CBAC gydymffurfio â hwy wrth wneud yr addasiadau hynny. Amlinellir y rhain yn adrannau 3 a 4 y ddogfen hon.

2 Cefndir

Mae Atodlen 3, Adran 4 Deddf Cymwysterau Cymru 2015 yn caniatáu inni osod amodau arbennig y gallai cydnabyddiaeth gan gorff dyfarnu fod yn ddarostyngedig iddynt. Gall amodau arbennig wneud darpariaeth wahanol at ddibenion gwahanol, gan gynnwys ymhlith pethau eraill drwy gyfeirio at wahanol gymwysterau neu ddisgrifiadau o gymhwyster, a gwahanol amgylchiadau y dyfernir cymwysterau odanynt.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r egwyddorion i'w defnyddio gan CBAC wrth Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau Cyffredinol ("GQ") yn 2021. Mae hefyd yn nodi ein gofynion mewn perthynas ag Addasu asesiadau ar gyfer y Cymwysterau GQ hynny. Byddwn yn monitro cydymffurfiaeth CBAC yn unol â'n [Fframwaith Rheoleiddio a'n Dull Gweithredu](#).

Mae'r egwyddorion a'r gofynion a gynhwysir yn y ddogfen hon yn berthnasol yn ychwanegol at y gofynion a osodir gan yr Amodau Cydnabod Safonol, unrhyw Amodau lefel Cymhwyster perthnasol ac unrhyw Ddogfen Reoleiddio arall⁴.

I'r graddau y mae unrhyw anghysondeb rhwng gofyniad yn y ddogfen hon, a gofyniad sydd wedi'i gynnwys mewn unrhyw Feini Prawf Cymeradwyo a gyhoeddir gan Gymwysterau Cymru, fel na allai CBAC gydymffurfio â'r ddau ofyniad o'r fath, rhaid iddo gydymffurfio â gofyniad y ddogfen hon ac nid oes raid iddo gydymffurfio â'r Meini Prawf Cymeradwyo.

Yn y Ddogfen Reoleiddio hon, bydd i'r geiriau canlynol yr ystyr a roddir iddynt isod (a dylid dehongli ymadroddion cysylltiedig yn unol â hynny) -

Addasiadau

Unrhyw newidiadau a wneir gan CBAC i ddyluniad, gosodiad, darpariaeth neu farcio asesiad ar gyfer Cymhwyster Cyffredinol y mae'n ei ddarparu.

Cymhwyster GQ

Cymhwyster sy'n unrhyw un o'r canlynol -

- (a) Cymwysterau TGAU Cymeradwy;
- (b) Cymwysterau TAG UG Cymeradwy;
- (c) Cymwysterau TAG Safon Uwch Cymeradwy;
- (d) Cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru (SCC), a
- (e) Chymwysterau TGAU, TAG UG a TAG Safon Uwch sydd ar gael i Ddysgwyr yng Nghymru yn unig⁵.

⁴ Dogfen reoleiddio, neu ran o ddogfen reoleiddio, dogfen sy'n ymddangos mewn dogfen o'r enw 'Rhestr Dogfennau Rheoleiddio', y gall Cymwysterau Cymru ei chyhoeddi ac y gellir ei hamrywio a'i disodli gan Gymwysterau Cymru o bryd i'w gilydd.

⁵ CBAC TGAU Lefel 1 / Lefel 2 mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, CBAC TGAU Lefel 1 / Lefel 2 mewn Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (Cwrs Byr), CBAC TGAU Lefel 1 / Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, CBAC TGAU Lefel 1 / Lefel 2

Daeth y Ddogfen Reoleiddio hon i rym ar 15 Gorffennaf 2020 a bydd yn parhau mewn grym tan y dyddiad a bennir neu y penderfynir arno gan Gymwysterau Cymru.

mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), CBAC TGAU Lefel 1 / Lefel 2 mewn Economeg y Cartref: Datblygiad Plant, CBAC TAG Uwch Lefel 3 mewn TGCh Gymhwysol, CBAC TAG Uwch Lefel 3 mewn TGCh, CBAC TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 mewn TGCh Gymhwysol, CBAC TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 mewn TGCh, CBAC TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), CBAC TAG Lefel 3 Uwch mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Dyfarniad Dwbl), CBAC TAG Uwch Gyfrannol Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a CBAC TAG Uwch Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

3 Egwyddorion i'w cymhwyso

Mae Amod Arbennig WJEC2 yn caniatáu inni nodi egwyddorion y mae'n rhaid i CBAC gydymffurfio â hwy wrth Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau GQ, yn ogystal â'r cydbwysedd sydd i'w gyflawni pan fydd yr egwyddorion hynny'n gwrthdaro. Rydym yn nodi'r egwyddorion, a'r cydbwysedd sydd i'w gyflawni rhyngddynt, at ddibenion Amod Arbennig WJEC1 isod.

Yr Egwyddorion

- Egwyddor 1** - Rhaid i CBAC geisio sicrhau nad yw Dysgwyr yn cael mantais nac yn cael anfantais o gymharu â'u cyfoedion mewn awdurdodaethau eraill.
- Egwyddor 2** - Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod pob cymhwyster yn arwydd dibynadwy o'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth a bennir yn y cymhwyster yn dilyn unrhyw Addasiadau i asesiadau.
- Egwyddor 3** - Rhaid i CBAC geisio sicrhau nad yw cynnwys cymwysterau, yn gyffredinol, yn cael ei leihau; fodd bynnag, gellir ailstrwythuro cynnwys fel y gellir ei symleiddio'n rhesymol, megis mewn perthynas ag unedau dewisol.
- Egwyddor 4** - Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod Hydrinedd asesiad yn cael ei gynyddu i'r eithaf, lle bydd hyn yn caniatáu cynnydd yn yr amser addysgu er mwyn lleihau'r effaith ar ganlyniadau.
- Egwyddor 5** - Rhaid i CBAC geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, o fewn yr un cymhwyster yn unol â blynyddoedd blaenorol.
- Egwyddor 6** - Rhaid i CBAC geisio cynnal safonau, cyn belled ag y bo modd, ar draws cymwysterau tebyg sydd ar gael gan CBAC a chan gyrff dyfarnu eraill.
- Egwyddor 7** - Rhaid i CBAC geisio sicrhau bod hyblygrwydd wrth ddarparu asesiadau yn cael ei gynyddu i'r eithaf er mwyn lleihau effaith aflonyddwch, salwch neu gwarantyn, gan gynnwys cyfyngiadau symud ar lefel leol.

Y cydbwysedd rhwng yr egwyddorion

Nid yw'r egwyddorion hyn wedi'u trefnu mewn hierarchaeth. Fodd bynnag, mewn unrhyw achos lle mae gwrthdaro rhwng dwy neu fwy o egwyddorion fel y bydd cydymffurfio ag un egwyddor yn

Lleihau i ba raddau y gall CBAC gydymffurfio ag un arall, rhaid iddo sicrhau cydbwysedd priodol rhwng -

- (a) cynnal Dilysrwydd y cymhwyster, a
- (b) gwneud Addasiadau i asesiadau er mwyn lleihau'r effaith ar Ddysgwyr yn ystod pandemig Covid-19 yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Ddogfen Reoleiddio hon.

4 Gofynion mewn perthynas ag Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau GQ yn 2021

Mae Amod Arbennig WJEC3 yn caniatáu inni nodi gofynion a chanllawiau mewn perthynas ag Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau GQ yn ystod gwanwyn a haf 2021.

Rydym yn nodi ein gofynion mewn perthynas ag Addasu asesiadau yn ystod gwanwyn a haf 2021 ar gyfer Cymwysterau GQ isod.

Gofynion cyffredinol mewn perthynas ag Addasiadau

Gellir gwneud addasiadau i'r cynllun asesu ar gyfer Cymwysterau GQ sy'n ymwneud â'r canlynol yn unig:

- asesiadau arholiad, a
- asesiadau di-arholiad.

Y prif nod wrth wneud unrhyw Addasiadau ddylai fod i leihau baich asesu ar Athrawon a Dysgwyr.

Wrth wneud unrhyw Addasiadau i asesiadau (asesiadau arholiad ac asesiadau di-arholiad), rhaid i CBAC ystyried canllawiau diweddaraf y llywodraeth ac ieuchy y cyhoedd.

Lle bo modd, er mwyn cynnal Cymaroldeb ar draws pynciau, dylai Addasiadau o unrhyw fath fod yn debyg o ran graddfa a dyluniad (ond nid o reidrwydd yn union yr un fath) ar gyfer grwpiau o gymwysterau tebyg.

Disgwylir y gellir Addasu mwyafrif y cymwysterau o fewn y gofynion a nodir isod. Yn y wybodaeth hon, rhaid i CBAC gofnodi rhesymeg dros unrhyw Addasiadau a wneir i asesiad, ac i ba raddau y cânt eu gwneud ar gyfer pob cymhwyster o fewn y gofynion hyn, a'u cyflwyno i Gymwysterau Cymru pan ofynnir am hynny.

Lle nad yw'n bosibl Addasu cymhwyster/cymwysterau o fewn y gofynion hyn, bydd hyn yn cael ei drin fel achos eithriadol. O'r herwydd, mae'n rhaid i CBAC gofnodi rhesymeg dros unrhyw Addasiadau a wneir i asesiad y tu allan i'r gofynion hyn a'i gyflwyno i Gymwysterau Cymru i'w gymeradwyo.

Ystyriaethau Cydraddoldeb

Rhaid i CBAC sicrhau, wrth wneud unrhyw Addasiadau i asesiad ar gyfer Cymhwyster GQ y mae'n ei ddarparu, ei fod yn Lleihau Rhagfarn, cyn belled ag y bo modd.

Ymhob achos, rhaid i CBAC gydymffurfio â gofynion Amod C2.3(h) (Trefniadau gyda Chanolfannau), Amod D2 (Hygyrchedd cymwysterau) ac Amod G6 (Trefniadau ar gyfer Addasiadau Rhesymol).

Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau TGAU

(a) Addasiadau i asesiad arholiad

Wrth wneud unrhyw Addasiadau i asesiad arholiad y cymwysterau, rhaid i CBAC sicrhau:

- nad yw Dilysrwydd a Dibynadwyedd y cymhwyster yn cael ei danseilio gan yr Addasiadau hynny;
- bod yr holl amcanion asesu yn cael eu hasesu ar draws y cymhwyster;
- lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bod cydbwysedd yr amcanion asesu yn cael ei gynnal. Lle nad yw'n bosibl cynnal cydbwysedd pwysoliadau gwrthrychol asesu, ni ddylai'r Addasiadau newid Lefel y Galw am y cymhwyster, a
- dylai asesiadau dargedu ystod lawn graddau'r cymhwyster.

(b) Addasiadau i Asesiadau Di-arholiad

Wrth wneud unrhyw Addasiadau i unedau'r Asesiadau Di-arholiad, rhaid i CBAC ystyried y sgiliau penodol sy'n cael eu hasesu a phwysigrwydd y sgiliau hynny i Ddilysrwydd y cymhwyster.

Caniateir i CBAC, ond nid yw'n ofynnol iddo, wneud y newidiadau canlynol lle bernir eu bod yn briodol ac nad yw hyn yn tanseilio Dilysrwydd a Dibynadwyedd y cymhwyster:

- Addasu'r amodau a'r rheolaethau sy'n gysylltiedig ag asesiad lle ystyrir y byddai gwneud hynny yn lleihau baich yr asesu ar Ddysgwyr ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd Dysgwyr yn cael eu rhoi o dan anfantais, ac
- Addasu hyd yr asesiad a'r dyddiadau a drefnwyd ar gyfer cwblhau'r asesiad, lle gallai gwneud hynny leihau'r tebygolrwydd o unrhyw anfantais bosibl i Ddysgwyr.

Addasu asesiadau ar gyfer Cymwysterau TAG

Wrth wneud unrhyw Addasiadau i Gymwysterau TAG, rhaid i CBAC roi sylw dyladwy i gynigion ar gyfer Addasiadau i gymwysterau UG a Safon Uwch mewn awdurdodaethau eraill, gyda'r nod o gynnal cydraddoldeb a hygludedd y cymwysterau.

(a) Addasiadau i asesiad arholiad

Wrth wneud unrhyw Addasiadau i asesiad arholiad y cymwysterau, rhaid i CBAC sicrhau:

- nad yw Dilysrwydd a Dibynadwyedd y cymhwyster yn cael ei danseilio gan yr Addasiadau hynny;

- bod yr holl amcanion asesu yn cael eu hasesu ar draws y cymhwyster;
- lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bod cydbwysedd yr amcanion asesu yn cael ei gynnal. Lle nad yw'n bosibl cynnal cydbwysedd pwysoliadau amcanion asesu, ni ddylai'r Addasiadau newid Lefel Galw'r cymhwyster;
- dylai asesiadau dargedu ystod lawn graddau'r cymhwyster, ac
- y cedwir cynnwys a sgiliau a ystyrir yn bwysig ar gyfer symud ymlaen i addysg uwch.

(b) Addasiadau i Aseidiadau Di-arholiad

Wrth wneud unrhyw Addasiadau i unedau'r Aseidiadau Di-arholiad, rhaid i CBAC ystyried y sgiliau penodol sy'n cael eu hasesu a phwysigrwydd y sgiliau hynny i Ddilysrwydd y cymhwyster.

Caniateir i CBAC, ond nid yw'n ofynnol iddo, wneud y newidiadau canlynol lle bernir eu bod yn briodol ac nad yw hyn yn tanseilio Dilysrwydd a Dibynadwyedd y cymhwyster:

- Addasu'r amodau a'r rheolaethau sy'n gysylltiedig ag asesiad lle ystyrir y byddai gwneud hynny yn lleihau baich yr asesu ar Ddysgwyr ac yn lleihau'r tebygolrwydd y bydd Dysgwyr yn cael eu rhoi o dan anfantais, ac
- Addasu hyd yr asesiad a'r dyddiadau a drefnwyd ar gyfer cwblhau'r asesiad, lle gallai gwneud hynny leihau'r tebygolrwydd o unrhyw anfantais bosibl i Ddysgwyr.

Addasu aseidiadau ar gyfer Cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru

Wrth wneud unrhyw Addasiadau i Gymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, rhaid i CBAC sicrhau:

- nad yw Dilysrwydd a Dibynadwyedd y cymhwyster yn cael ei danseilio gan yr Addasiadau hynny;
- bod yr holl sgiliau'n cael eu hasesu'n benodol ar draws y cymhwyster;
- lle bynnag y bo hynny'n bosibl, bod cydbwysedd yr asesiad o'r sgiliau yn cael ei gynnal. Lle nad yw'n bosibl cynnal cydbwysedd pwysoliadau, ni ddylai'r Addasiadau newid Lefel Galw'r cymhwyster;
- dylai asesiadau dargedu ystod lawn graddau'r cymhwyster.